Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL**.

NODER – NID YW'R CYFARFOD HWN YN AGORED I'R CYHOEDD.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Swyddog Monitro**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **CLIMATE CHANGE AND ECOLOGICAL EMERGENCY WORKING GROUP** are attached below.

PLEASE NOTE – THIS MEETING IS NOT OPEN TO THE PUBLIC.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Monitoring Officer**

**AGENDA**

**1 RHAGLEN** (Tudalennau 3 - 12)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# RHAGLEN

## CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG ECOLEGOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 10 Tachwedd 2023 |
| **Amser** | 14.00-16.00 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Cadeirydd** | Y Cyng. Barry Mellor |
| **Hwylusydd** | Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes ac Uwch Berchennog Cyfrifol Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol) a Liz Wilcox-Jones (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd) |
| **Ymddiheuriadau** | Y Cyng. Paul Keddie, Y Cyng. Arwel Roberts |

| | |
|---|---|
| **1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau** (Cadeirydd) | (5 munud)<br>14.00-14.05 |
| **2. Cofnodion/ camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi** (Cadeirydd)<br>• Canlyniadau Cerdyn Sgorio Hinsawdd y Cyngor | (10 munud)<br>14.10-14.20 |
| **3. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad y strategaeth** (Liz Wilcox-Jones)<br>Adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2023/24<br>• Adolygu'r dystiolaeth a mewnbwn<br>• Noson ymgynghoriad cyhoeddus | (10 munud)<br>14.30-14.40 |
| **4. Cynllunio** (Helen Vaughan-Evans, Angela Loftus ac Bethan Morris) | (40 munud) |

| | |
|---|---|
| Sut mae CSDd yn gwneud yr hyn a all i gefnogi camau lliniaru ac addasu newid hinsawdd yn ogystal â chamau i adfer natur wrth gynghori a phenderfynu ar geisiadau cynllunio ac o fewn y Cynllun Datblygu Lleol newydd<br><br>*Cyfeirio at yr awgrym i ymuno â Planning for the Planet yn awr* www.foodfortheplanet.org.uk/councillors | 14.40-15.20 |
| **5. Isadeiledd Cludiant Cerbydau Trydan** (Helen Vaughan-Evans, Paul Jackson a Swyddogion Priffyrdd)<br><br>Opsiynau ar gyfer lleihau allyriadau carbon o drafnidiaeth ar draws tiriogaeth Sir Ddinbych, e.e. CSDd yn cefnogi'r cyhoedd i newid i ddefnyddio cerbydau allyriadau isel iawn ar draws tiriogaeth Sir Ddinbych, e.e. Isadeiledd gwefru cerbydau trydan - ystyriaethau cynllunio a phriffyrdd y technolegau hynny<br><br>*Cyfeirio at gyfleoedd 'Charge Gully' ac awgrymu y dylid trafod gyda'r cyflenwyr* | (40 munud)<br><br>15.20-15.50 |
| Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Unrhyw Fater Arall<br><br>• Awgrym gan Martyn Hogg - Cefnogi'r sector amaethyddol yn Sir Ddinbych gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd arfaethedig yng Nghymru | (10 munud)<br><br>15.50-16.00 |

**Aelodaeth – Cynghorwyr:**

Y Cyng. Arwel Roberts
Y Cyng. Barry Mellor (Cadeirydd)
Y Cyng. Bobby Feeley
Y Cyng. Delyth Jones
Y Cyng. James Elson
Y Cyng. Jon Harland
Y Cyng. Martyn Hogg
Y Cyng. Michelle Blakeley-Walker
Y Cyng. Paul Keddie
Y Cyng. Peter Scott

# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Ecolegol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 25 / 07 / 2023 |
| **Amser** | 14.00 tan 16.00 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Yn bresennol** | Cyng Barry Mellor (Cadeirydd) (BM), Cyng Bobby Feeley (BF), Cyng Jonathan B. Harland (JBH), Cyng Martyn Hogg (MH), Cyng Delyth A. Jones (DAJ),<br>Cyng Arwel Roberts (AR), Cyng Michelle Walker (MW). |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng James Elson (JE), Cyng Paul Keddie (PK), Cyng Peter Scott (PS) |
| **Hefyd yn bresennol** | Swyddogion Cefnogi: Gary Williams (GW), Helen Vaughan-Evans (HVE), Sian Owen (SO), Keith Bennett (KB) |

## 1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd BM bawb i'r cyntaf o'r cyfarfodydd sydd wedi ailddechrau yn dilyn newid y Cyngor, gan osod ffocws y grŵp o fewn cyd-destun ehangach y newyddion rhyngwladol cyfredol am dywydd poeth, tanau gwyllt a stormydd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Nodwyd yr ymddiheuriadau.

## 2. Penodi Is-Gadeirydd

Cynigwyd MH fel Is-gadeirydd, cytunodd pob aelod a oedd yn bresennol a derbyniodd y rôl.

## 3. Cylch Gorchwyl

Crynhodd HVE bwyntiau amlwg o'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a ddosbarthwyd:

- Dau gynrychiolydd o bob plaid / grŵp;
- Rhaglen a chofnodion i'w cyhoeddi;
- Swyddogion cefnogi sefydlog: Cyfarwyddwr Corfforaethol, Llywodraethu a Busnes, uwch berchennog cyfrifol ar gyfer y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol (GW); Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd (HVE); a Swyddog Arweiniol dros Gyfathrebu (SO) ynghyd â rhywun i gymryd cofnodion. Gwahodd swyddogion eraill yn unol â'r rhaglen;
- Cofnodion yn seiliedig ar gamau gweithredu.

Holodd MH ynghylch cyfathrebiadau allanol. Eglurodd HVE y Rhestr Bostio Werdd, lle mae hysbysiadau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer cyfarfodydd gweithgorau, brysbennu swyddogion ar gyfer mewnflwch y cyfeiriad e-bost newid hinsawdd, a'r disgwyliad cyffredinol y byddai cyfathrebiadau'n cael eu sianelu trwy aelodau wardiau lleol. Bydd y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn ymdrin â chyfathrebu cyhoeddus ehangach.

## 4. Cofnodion / camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Archwiliwyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (01/02/2022) ac adolygwyd y tabl Camau Gweithredu. Trafodwyd y ddau gam gweithredu parhaus yn eithaf manwl:

1. Canllawiau ar gefnogi cynghorwyr sy'n eistedd ar y gweithgor hwn a'r pwyllgor cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd lle'r ymddengys bod gwrthdaro posibl rhwng amcanion. Eglurodd GW gyd-destun deddfwriaethol yr awdurdod cynllunio yn arfer dyletswyddau statudol ac yn gwneud penderfyniadau o fewn canllawiau gan lywodraeth genedlaethol o'i gymharu â'r llywodraethu lleol y tu ôl i gyfansoddiad y cyngor a'r datganiad o argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Lle bo polisïau'n gorgyffwrdd, mae gan y pwyllgor cynllunio ddisgresiwn i bwyso a mesur ystyriaethau perthnasol i ddod i benderfyniad. Ni all y gweithgor hwn ddylanwadu ar y pwyllgor cynllunio ond gall argymell polisïau lleol drwy broses y cynllun

datblygu lleol. Awgrymodd GW, a chytunodd y grŵp, i wahodd swyddog cynllunio i gyfarfod y gweithgor i siarad ymhellach am ddatblygu polisi.

***Cam Gweithredu: HVE i estyn gwahoddiad i Gynllunio.***

2. Polisi rheoli chwyn, yn enwedig chwynladdwyr / plaladdwyr. Gyda sylw arbennig i glyffosad, cytunwyd yn flaenorol y byddai Tai yn treialu opsiynau eraill (gwrthodwyd taflu fflamau ac ewyn poeth ond byddai brwsio mecanyddol a datrysiadau sy'n seiliedig ar finegr yn cael eu treialu). Fodd bynnag, ni aeth y cynllun peilot yn ei flaen ar ôl newid contractwr. Mae Tai bellach yn paratoi i dreialu cynllun peilot newydd. Ehangodd trafodaeth y grŵp i reoli dolydd blodau gwyllt, y polisi torri gwair cysylltiedig ac adborth cymysg gan drigolion. Ailddatganwyd y rheswm dros newid y polisi torri gwair: mae ecosystemau'n agored i fethiant unrhyw un elfen. Mae buddion ehangach yn gysylltiedig â gwarchod gwenyn a chaniatáu i ardaloedd blodau gwyllt ddatblygu'n systemau gwydn. Daethpwyd i'r consensws, yn dilyn datganiad 2019 o argyfwng ecolegol, y dylai'r cyngor gadw at ei ddull o reoli glaswelltir ar gyfer bioamrywiaeth. Pan fydd cwynion lleol penodol yn codi, ceisio dod o hyd i gydbwysedd derbyniol. Diolchodd HVE i'r aelodau am eu hamser yn cwrdd â thrigolion, yn cefnogi'r dull gweithredu ac yn helpu i gyfleu'r negeseuon ynghylch mynd i'r afael â'r argyfwng ecolegol.

***Cam Gweithredu: Holl Aelodau'r Grŵp Cynghorwyr - Y neges ar hyn o bryd i aelodau os oes rhywun yn cysylltu â nhw ynghylch glaswellt hir yw y bydd yr holl waith torri a chasglu cyn diwedd y tymor yn cael ei gwblhau cyn diwedd mis Medi.***

***Cam Gweithredu: Holl Aelodau'r Grŵp Cynghorwyr - Defnyddiwch C360 er mwyn cofnodi unrhyw faterion yn ymwneud â Dolydd Blodau Gwyllt gan drigolion er mwyn creu ymateb cydlynol rhwng y timau Gwasanaethau Stryd, Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd.***

## 5. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Amserlen Cyfarfodydd

Awgrymwyd cynnal tri chyfarfod y flwyddyn a chyflwynwyd syniadau gan y grŵp i'w trafod yn y dyfodol.

Roedd syniadau ar gyfer y rhaglen gwaith i'r dyfodol yn cynnwys:

| **Syniad** | **Allbwn swyddogion posibl** |
|---|---|
| Sut mae CSDd yn gwneud yr hyn a all i gefnogi camau lliniaru ac addasu newid hinsawdd yn ogystal â chamau i adfer natur wrth gynghori a phenderfynu ar geisiadau cynllunio ac o fewn y Cynllun Datblygu Lleol newydd | Rheoli Datblygu CSDd, Polisi Cynllunio CSDd |
| Opsiynau mwy ecogyfeillgar ar gyfer rheoli chwyn (opsiynau, peilot a gweithredu eang) | Gwasanaethau Stryd CSDd, Tai CSDd, Bioamrywiaeth CSDd |
| Lleihau'r defnydd o blastig untro mewn ysgolion. | Arlwyo Ysgolion CSDd |
| Insiwleiddio cartrefi – sut mae CSDd yn gwneud yr hyn a all i annog a chefnogi gwaith insiwleiddio cartrefi yn y Sir (yn berthnasol yn ein hadeiladau ein hunain hefyd) | Tîm Prosiect Arbed Ynni Domestig Cyngor Sir y Fflint (gweinyddu ECO4 ar ran y Cyngor), Rheoli Ynni CSDd, Tai CSDd |
| Plannu coed a chreu coetir ar dir sy'n eiddo i Sir Ddinbych (cynnwys pobl ifanc) | Newid Hinsawdd CSDd, Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd |
| Cefnogi'r sector amaethyddol yn Sir Ddinbych gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd arfaethedig yng Nghymru | Siaradwr Allanol Llywodraeth Cymru, Prisio ac Ystadau CSDd |

| **Syniad** | **Allbwn swyddogion posibl** |
|---|---|
| Adolygu ein daliadau tir i asesu'r defnydd gorau o'n daliadau tir at nifer o ddibenion | Llefarydd WLGA - Offeryn Asesu Defnydd Tir, siaradwr allanol sy’n Agronomegydd, Prisio ac Ystadau CSDd |
| Ynni adnewyddadwy sy’n eiddo i’r Cyngor (e.e. Fferm Solar) – opsiynau i’r Cyngor | Siaradwr Allanol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Rheoli Asedau Strategol CSDd |
| Rheoli sbwriel yn cynnwys ‘pŵer cymunedol’ e.e. sesiynau codi sbwriel cymunedol | Gwasanaethau Stryd CSDd, Datblygu Cymunedol CSDd, Cymuned Allanol, Siaradwr Cyngor Tref a Sir, siaradwr Grŵp Cymunedol Allanol |
| Adolygu'r asedau adeiledig y mae'r Cyngor yn berchen arnynt i archwilio opsiynau a fydd o fudd i amcanion adfer hinsawdd a natur | Landlord Corfforaethol CSDd |
| Rheoli mawn ledled Sir Ddinbych | Siaradwr allanol Cyfoeth Naturiol Cymru, tîm AHNE CSDd |

| Syniad | Allbwn swyddogion posibl |
| --- | --- |
| Opsiynau ar gyfer lleihau allyriadau carbon o drafnidiaeth ar draws tiriogaeth Sir Ddinbych, e.e. CSDd yn cefnogi'r cyhoedd i newid i ddefnyddio cerbydau allyriadau isel iawn ar draws tiriogaeth Sir Ddinbych, e.e. Isadeiledd gwefru cerbydau trydan - ystyriaethau cynllunio a phriffyrdd y technolegau hynny | Cludiant CSDd, Polisi Cynllunio CSDd, Priffyrdd CSDd, siaradwr allanol Trafnidiaeth Cymru |

Trafodwyd blaenoriaethu eitemau.

***Cam Gweithredu: HVE i siapio hyn i mewn i'r cynllun gwaith i'r dyfodol drafft ar gyfer 2023-2027, 3 chyfarfod y flwyddyn, i'r grŵp ei gymeradwyo.***

## 6. Cyngor Ecolegol Cadarnhaol a Di-Garbon Net: Perfformiad 2022/23

Cyflwynodd HVE adroddiad ar y data perfformiad corfforaethol diweddaraf ar gyfer Cyngor Di-Garbon Net a'r Cyngor Ecolegol Cadarnhaol a oedd, yn rhannol, hefyd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2023 (eitem 7 ar y rhaglen).

Y penawdau yw:

1. er bod y duedd tuag at fod yn ddi-garbon yn mynd i'r cyfeiriad cywir, yr arwyddion yw nad yw'r cyflymder presennol yn ddigon i warantu cyflawni'r nod erbyn 2030;
2. mae'r cynnydd tuag at fod yn ecolegol gadarnhaol yn dda ac mae rheolwr y rhaglen yn hynod obeithiol y gellir cyrraedd y nod erbyn 2030 ond mae heriau o amgylch dolydd blodau gwyllt fel y trafodwyd yn gynharach (gweler Materion yn Codi;
3. mae amcangyfrifon o allyriadau carbon o gadwyn gyflenwi CSDd yn dal i gael eu cyfrifo.

Bydd yr adolygiad o'r strategaeth newid hinsawdd ac ecolegol hefyd yn cynnwys ystyriaeth o'r dangosyddion perfformiad. Bydd yn cael ei wneud yn glir i'r darllenwyr beth yw'r bwlch rhwng y targed dymunol a'r cynnydd hyd yma a beth yw'r cyfyngiadau y mae CSDd yn gweithredu o’u mewn. Mae'r adolygiad hefyd yn gyfle i gyflwyno dangosyddion ychwanegol lle bo'n briodol i ddal dylanwad ehangach y strategaeth.

Penderfynodd y grŵp ei fod yn fodlon:

- bod yn glir ac yn dryloyw ar berfformiad presennol nodau 2030 yn y strategaeth ddiwygiedig;
- ehangu'r fasged o fesurau perfformiad lle bo'n briodol.

Cwestiynodd MH addasrwydd y llinell duedd linol - a fyddem yn hytrach yn disgwyl dechrau arafach gan gyflymu mwy yn ddiweddarach yn amserlen y Rhaglen. Holodd MH am y gallu i gyfrifo effaith gronnol prosiectau unigol i amcangyfrif rhagolygon carbon a chynorthwyo blaenoriaethu. Atgoffodd BF y grŵp mai CSDd oedd un o'r awdurdodau cyntaf i ddatgan argyfwng ac adlewyrchodd fod targed uchelgeisiol 2030 yn ein cynorthwyo i gyflymu camau gweithredu.

Diolchodd HVE i'r grŵp am ei gymorth i egluro'r newidiadau i'r strategaeth.

***Cam Gweithredu: HVE i roi’r cynnwys yn y strategaeth ddiwygiedig ddrafft yn unol â hynny i'w hadolygu gan y grŵp hwn a Bwrdd Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd.***

***Cam Gweithredu: HVE i weithio gydag Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad ar rinweddau dewis amgen i linellau tueddiadau llinol a bwydo hyn i mewn wrth adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sydd y tu ôl iddi.***

## 7. Adolygu’r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol: Prif Negeseuon o'r Arolwg Cyhoeddus

Cynhaliwyd yr arolwg o fis Mai i fis Gorffennaf. Derbyniwyd 89 o ymatebion. Roedd yn nodedig bod cyfran uchel o'r ymatebwyr hyn yn dymuno cymryd rhan mewn gweithdai cyhoeddus yn y dyfodol i gefnogi'r gwaith o adolygu ac adnewyddu'r strategaeth.

Cafodd y themâu o'r ymatebion eu rhannu gyda'r grŵp a'u trafod. Cytunwyd bod yr adborth, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn werthfawr. Croesawyd y ffaith bod trigolion am gymryd rhan weithredol.

***Cam Gweithredu: Bydd HVE nawr yn mynd ag awgrymiadau cyhoeddus ar gyfer pynciau i'w cynnwys yn y strategaeth i Fwrdd Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd, a all arwain at adrannau newydd a/neu wahanol yn nogfen y Strategaeth ar ei newydd wedd.***

***Cam Gweithredu: Bydd HVE nawr yn mynd ag awgrymiadau'r cyhoedd ar gyfer camau gweithredu / gweithgareddau / polisi / proses i feysydd gwasanaeth, a allai arwain at eu cynnwys yn y strategaeth ddiwygiedig.***

## 8. Unrhyw fater arall

Trafodwyd dyddiadau ac amseroedd posibl ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol o amgylch cyfyngiadau mynychu.

***Cam Gweithredu: HVE i e-bostio gwahoddiadau i gyfarfodydd y dyfodol.***